Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1248 (Cy. 208) (C. 79)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (dccc 2) ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ar 29 Tachwedd 2024 ddarpariaethau penodol yn Rhan 4 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes wedi eu cychwyn. Mae hyn yn cynnwys dwyn i rym Atodlen 3 (darpariaeth bellach mewn cysylltiad â thrwyddedau triniaeth arbennig) i'r Ddeddf. Bydd dod â pharagraffau 22 a 23 o Atodlen 3 i'r Ddeddf i rym—

(a) yn diddymu darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (p. 30) ("Deddf 1982") o ran Cymru, a

(b) yn hepgor y cofnodion sy'n ymwneud ag adran 14 ac adran 15 o Ddeddf 1982 o bob tabl yn Atodlen 1 (pwerau i wneud is-ddeddfau) i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (dccc 2).

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym ar 29 Awst 2025 ddarpariaethau pellach yn Rhan 4 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig (gan gynnwys troseddau penodol). Hyd nes y daw'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Ddeddf i rym yn llawn, gall awdurdodau lleol ddibynnu ar yr amrywiol bwerau diogelu iechyd yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37) ac yn Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), er enghraifft.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae erthyglau 4 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy’n ymwneud ag unigolion a mangreoedd sydd wedi eu cofrestru o dan Ddeddf 1982. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi unigolion a mangreoedd i elwa ar “trwydded drosiannol” a/neu “tystysgrif gymeradwyo drosiannol”. Diben y darpariaethau hyn yw dangos i ddefnyddwyr fod unigolion a mangreoedd wedi gweithredu’n flaenorol i safon benodol (fel rhan o’u cofrestriad o dan Ddeddf 1982) a lleihau’r tarfu ar fusnesau wrth drosglwyddo o’r cynllun cofrestru o dan Ddeddf 1982 i’r cynllun trwyddedu newydd o dan Ran 4 o’r Ddeddf.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

Mae’r darpariaethau a ganlyn o’r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 3 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 4 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 5 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 6 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 7 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 8 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 9 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 10 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 10 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 11 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 11 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 12 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 13 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 14 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 15 | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 16 | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 17 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 17 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 18 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 18 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 19 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 20 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 21 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 22 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 23 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 24 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 25 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 26 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 27 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 27 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 28 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 28 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 29 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Adran 59 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 60 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 62 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 63 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 64 | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 69 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 70 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 71 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 72 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 76 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Adran 94 (yn rhannol) | 1 Chwefror 2018 | 2018/1 (Cy. 1)[(1)] |
| Adran 94 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Rhan 5 | 1 Chwefror 2018 | 2018/1 (Cy. 1) |
| Rhan 7 | 1 Ebrill 2019 | 2019/829 (Cy. 152)[(2)] |
| Rhan 8 | 31 Mai 2018 | 2018/605 (Cy. 116) (C. 48) |
| Adran 119 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | (C. 85) |
| Atodlen 1 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Atodlen 1 (y gweddill) | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Atodlen 2 | 1 Mawrth 2021 | 2021/202 (Cy. 49) (C. 5) |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 13 Medi 2024 | 2024/938 (Cy. 157) (C. 59) |
| Atodlen 4 | 31 Mai 2018 | 2018/605 (Cy. 116) (C. 48) |

(1) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

(2) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

*Gweler* hefyd adran 126(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2017 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1248 (Cy. 208) (C. 79)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2024

*Gwnaed* *27 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) a (3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) 2024.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1982" ("*the 1982 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr "Rheoliadau Cymeradwyaeth o ran Triniaethau Arbennig" ("*the Special Procedures Approval Regulations*") yw Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024(**3**);

mae i "trwydded triniaeth arbennig" ("*special procedure licence*") yr ystyr a roddir yn adran 59 o'r Ddeddf;

mae i "tystysgrif gymeradwyo" ("*approval certificate*") yr un ystyr ag yn adran 70 o'r Ddeddf.

(**1**) 2017 dccc 2.
(**2**) 1982 p. 30 ("Deddf 1982").
(**3**) O.S. 2024/1229 (Cy. 199).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Tachwedd 2024**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 29 Tachwedd 2024, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adran 56 (trosolwg o'r Rhan hon);

(b) adran 57 (beth yw triniaeth arbennig?);

(c) adran 58 (gofyniad i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig gael ei drwyddedu);

(d) adran 59 (darpariaeth gyffredinol ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig);

(e) adran 60 (unigolion sydd wedi eu hesemptio);

(f) adran 62 (meini prawf trwyddedu);

(g) adran 63 (amodau trwyddedu mandadol);

(h) adran 65 (caniatâd neu wrthodiad mandadol i gais am drwydded triniaeth arbennig);

(i) adran 66 (disgresiwn i ganiatáu cais am drwydded triniaeth arbennig);

(j) adran 67 (caniatáu neu wrthod cais i adnewyddu);

(k) adran 68 (dirymu trwydded triniaeth arbennig);

(l) adran 69 (rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth);

(m) adran 70 (cymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig);

(n) adran 71 (tystysgrifau cymeradwyo);

(o) adran 72 (terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol);

(p) adran 73 (dirymu cymeradwyaeth);

(q) adran 74 (dirymu cymeradwyaeth: gofynion hysbysu);

(r) adran 75 (dyletswydd i gynnal cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd);

(s) adran 76 (ffioedd);

(t) adran 78 (trwyddedau triniaeth arbennig: hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded);

(u) adran 79 (mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd: hysbysiadau camau adfer ar gyfer mangre);

(v) adran 80 (tystysgrif gwblhau);

(w) adran 81 (apelau);

(x) adran 82(5) i (9) (troseddau);

(y) adran 83 (swyddogion awdurdodedig);

(z) adran 84 (pwerau mynediad etc.);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(aa) adran 86 (gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill);

(bb) adran 87 (darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad);

(cc) adran 88 (pwerau arolygu etc.);

(dd) adran 89 (rhwystro etc. swyddogion);

(ee) adran 90 (pŵer i wneud pryniannau prawf);

(ff) adran 91 (eiddo a gedwir: apelau);

(gg) adran 92 (eiddo a gyfeddir: digolledu);

(hh) adran 93 (pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig);

(ii) adran 94 (dehongli'r Rhan hon);

(jj) Atodlen 3 (darpariaeth bellach mewn cysylltiad â thrwyddedau triniaeth arbennig).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 29 Awst 2025**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 29 Awst 2025—

(a) adran 61 (dynodi unigolyn at ddibenion adran 58(3));

(b) adran 77 (hysbysiadau stop);

(c) adran 82(1) i (4) (troseddau);

(d) adran 85 (gwarant i fynd i mewn i annedd).

**Darpariaethau trosiannol**

*Trwydded triniaeth arbennig*

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i berson (P) sydd, yn union cyn 29 Tachwedd 2024, wedi ei gofrestru i gynnal—

(a) y gwaith o aciwbigo(**1**);

(b) y busnes o datŵio, rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, tyllu cosmetig neu electrolysis(**2**).

(2) Gydag effaith o 29 Tachwedd 2024, bernir bod P yn rhoi triniaeth arbennig o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig (y cyfeirir ati yn yr erthygl hon fel "trwydded drosiannol").

(3) Mae trwydded drosiannol i'w thrin at ddibenion yr erthygl hon fel pe bai'n dod i ben—

(a) ar 1 Mawrth 2025 os yw P yn methu â gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig ar neu cyn 28 Chwefror 2025, neu

---

(**1**) *Gweler* adran 14(1) o Ddeddf 1982 am ystyr person sydd wedi ei gofrestru i gynnal y gwaith o aciwbigo.

(**2**) *Gweler* adran 15(1) o Ddeddf 1982 am ystyr person sydd wedi ei gofrestru i gynnal y busnes o datŵio, rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, tyllu cosmetig neu electrolysis.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) os yw P yn gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig ar neu cyn 28 Chwefror 2025—

(i) ar y dyddiad y rhoddir y drwydded triniaeth arbennig, neu

(ii) ar y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad o benderfyniad i wrthod y cais am drwydded triniaeth arbennig (ac eithrio y bydd y drwydded drosiannol yn parhau i gael effaith, pan fo sylwadau wedi eu cyflwyno, neu pan fo apêl wedi ei gwneud, mewn perthynas â'r penderfyniad i wrthod yn unol â darpariaethau perthnasol y Ddeddf, hyd nes bod apêl wedi ei phenderfynu'n llawn, wedi ei thynnu'n ôl neu hyd nes y rhoddir y gorau iddi).

(4) Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw darfodiad trwydded drosiannol o dan baragraff (3)(a) o'r erthygl hon i'w drin fel pe bai'r drwydded drosiannol wedi ei dirymu ac nid yw'n arwain at hawl i apelio o dan Atodlen 3 i'r Ddeddf.

(5) Nid yw'r rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i gynnal a chyhoeddi cofrestr fel y nodir yn adran 75 o'r Ddeddf (dyletswydd i gynnal cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd) yn gymwys mewn perthynas â thrwyddedau trosiannol.

*Tystysgrif gymeradwyo*

**5.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i fangre (A) sydd, yn union cyn 29 Tachwedd 2024, wedi ei chofrestru i gynnal—

(a) y gwaith o aciwbigo(**1**);

(b) y busnes o datŵio, rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, tyllu cosmetig neu electrolysis(**2**).

(2) Gydag effaith o 29 Tachwedd 2024, bernir bod A wedi ei chymeradwyo gan awdurdod lleol fel mangre y rhoddir triniaeth arbennig ynddi a dyroddir tystysgrif gymeradwyo (y cyfeirir ati yn yr erthygl hon fel "tystysgrif gymeradwyo drosiannol") i'r fangre honno.

(3) Mae tystysgrif gymeradwyo drosiannol i'w thrin at ddibenion yr erthygl hon fel pe bai'n dod i ben—

(a) ar 1 Mawrth 2025 os yw ceisydd yn methu â gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo mewn cysylltiad ag A ar neu cyn 28 Chwefror 2025, neu

---

(**1**) *Gweler* adran 14(2) o Ddeddf 1982 am ystyr mangre sydd wedi ei chofrestru i gynnal y gwaith o aciwbigo.

(**2**) *Gweler* adran 15(2) o Ddeddf 1982 am ystyr mangre sydd wedi ei chofrestru i gynnal y busnes o datŵio, rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, tyllu cosmetig neu electrolysis.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) os yw ceisydd yn gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo mewn cysylltiad ag A ar neu cyn 28 Chwefror 2025—

(i) ar y dyddiad y rhoddir tystysgrif gymeradwyo, neu

(ii) ar y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad o benderfyniad i wrthod cais am dystysgrif gymeradwyo (ac eithrio y bydd y dystysgrif gymeradwyo drosiannol yn parhau i gael effaith, pan fo sylwadau wedi eu cyflwyno, neu pan fo apêl wedi ei gwneud, mewn perthynas â'r penderfyniad i wrthod yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau Cymeradwyaeth o ran Triniaethau Arbennig, hyd nes bod apêl wedi ei phenderfynu'n llawn, wedi ei thynnu'n ôl neu hyd nes y rhoddir y gorau iddi).

(4) Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw darfodiad tystysgrif gymeradwyo drosiannol o dan baragraff (3)(a) i'w drin fel pe bai'r drwydded drosiannol wedi ei dirymu ac nid yw'n arwain at hawl i apelio o dan Ran 12 neu 13 o'r Rheoliadau Cymeradwyaeth o ran Triniaethau Arbennig.

(5) Nid yw'r rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i gynnal a chyhoeddi cofrestr fel y nodir yn adran 75 o'r Ddeddf (dyletswydd i gynnal cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd) yn gymwys mewn perthynas â thystysgrifau cymeradwyo trosiannol.

*Jeremy Miles*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2024